

Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal (memoranda rhif 2 a rhif 3)

Chwefror 2022

1. Cyflwyniad

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

1. Ar 16 Rhagfyr 2021, yn unol â'r terfyn amser adrodd a osodwyd gan y Pwyllgor Busnes, fe wnaethom osod ein hadroddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU ("y Bil").

2. Yn ogystal â gwneud nifer o sylwadau am y broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a phwysigrwydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth amserol a digonol i lywio gwaith craffu'r Senedd, roedd ein hadroddiad yn trafod:

- Darpariaethau nad oedd gennym unrhyw wrthwynebiad i'r Senedd roi ei gydsyniad iddynt: cymal 77 (Tacluso etc. darpariaethau ynghylch cyfrifon rhai o gyrff y GIG); cymal 80 (Cleifion mewn ysbytai ag anghenion gofal a chymorth: diddymiadau ac ati); cymal 87 (systemau gwybodaeth am feddyginiaethau) fel y'i diwygiwyd gan Dŷ'r Cyffredin ar 23 Tachwedd 2021; cymal 142 (Rheoleiddio gofal iechyd a phroffesiynau cysylltiedig); a chymal 146 (Gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr - pŵer i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir).
- Darpariaethau yr oedd gennym bryderon parhaus yn eu cylch: cymal 136 (trefniadau gofal iechyd rhyngwladol); y pwerau diwygio canlyniadol yng nghymalau 91, 144 a 149.



- Darpariaethau nad oedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb yn eu cylch eto: cymalau 88-94 yn ymwneud â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i drosglwyddo neu ddirprwyo swyddogaethau.

3. Yn y paragraff uchod, a thrwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at rifau cymalau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 24 Tachwedd 2021 ar ôl cwblhau'r cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

4. Ymatebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'n hadroddiad ar 3 Chwefror 2022.¹

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: memorandwm rhif 2

5. Ar 17 Rhagfyr 2021, gosododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol cychwynnol ("MCD atodol rhif 2") gerbron y Senedd. Mae MCD atodol rhif 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o ddarpariaethau a gafodd eu cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, a nodir tair darpariaeth bellach y ceisir cydsyniad y Senedd ar eu cyfer:

- Cymalau 122-125: troseddau profion gwryfydod.
- Cymal 135: ad-daliad i fferyllfeydd cymunedol.
- Cymal 143: archwilwyr meddygol.

6. Ar 11 Ionawr 2022, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes MCD atodol rhif 2 i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gan osod 17 Chwefror 2022 fel dyddiad cau i gyflwyno adroddiad.

7. Ar 25 Ionawr 2022, ar gais Llywodraeth Cymru, diwygiodd y Pwyllgor Busnes y dyddiad cau i gyflwyno adroddiad i 15 Chwefror 2022. Roedd hyn yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnal y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar 15 Chwefror 2022. Rydym yn deall bod hyn er mwyn sicrhau bod y Senedd yn cael y cyfle i bleidleisio ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol cyn i'r camau diwygio terfynol gael eu cynnal yn Senedd y DU, gan roi ystyriaeth yn benodol i'r gwahaniaethau rhwng dyddiadau toriad Senedd Cymru a Senedd y DU.

¹Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 3 Chwefror 2022

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: memorandwm rhif 3

8. Ar 28 Ionawr 2022, gosododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol gerbron y Senedd ("MCD atodol rhif 3"). Mae MCD atodol rhif 3 yn rhoi diweddariad pellach ar ddarpariaethau a gafodd eu cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, ac yn nodi dau faes ychwanegol a gwmpesir gan welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 24 Ionawr y byddai arnynt angen cydsyniad Senedd Cymru:

- Gwneud hymenoplasti'n drosedd.
- Adroddiadau gorfodol.

9. Nodir ym MCD atodol rhif 3:

"Ar yr amod bod y gwelliannau a gyflwynwyd yn cael eu pasio gan Dŷ'r Arglwyddi a bod yr ymrwymiad i wneud Datganiad gerbron y Blwch Dogfennau yn cael ei wireddu, byddaf yn gallu argymhell bod cydsyniad y Senedd yn cael ei roi i'r holl gymalau yn y Bil sy'n ymdrin â meysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig".²

10. Ar 1 Chwefror 2022, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes MCD atodol rhif 3 i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arnynt, gan osod 15 Chwefror 2022 fel dyddiad cau i gyflwyno adroddiad.

2. Profion gwryfdod a hymenoplasti

Cymalau 122-125: troseddau profion gwryfdod

11. Mae cymal 122, sydd wedi'i ychwanegu at y Bil drwy welliant, yn diffinio 'profion gwryfdod' fel "archwilio genitalia menywod, gyda neu heb gydsyniad, at y diben, neu'r diben honedig, o bennu gwryfdod". Mae cymalau 122-125 yn ei gwneud yn drosedd yng Nghymru a Lloegr i gynnal profion gwryfdod, cynnig cynnal profion gwryfdod, neu gynorthwyo ac annog person arall i gynnal profion gwryfdod.

12. Mae MCD atodol rhif 2 yn egluro mai safbwynt Sefydliad Iechyd y Byd a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr yw "nad oes unrhyw sail wyddonol na chlinigol i brofion

² Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3), Bil Iechyd a Gofal*, 28 Ionawr 2022

gwryfyddod, gan nad yw'n bosibl dweud a yw menyw wedi cael cyfathrach drwy'r math hwn o archwiliad".³ Mae'n ychwanegu nad yw'r driniaeth yn cael ei chynnal gan y GIG, ac felly mae'n ymddangos ei bod yn cael ei chynnal yn bennaf:

- Mewn lleoliadau gofal iechyd preifat gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- Mewn lleoliadau eraill, fel y cartref, gan aelodau o'r teulu neu arweinwyr cymunedol.

13. Mae MCD atodol rhif 2 yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r ddarpariaeth gael ei hymestyn i Gymru oherwydd:

"...byddai peidio â gwneud hynny yn golygu risg bod Cymru yn cael ei gadael ar ôl ar y mater pwysig hwn. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw a byddai hyn yn golygu bod gan fenywod a merched yng Nghymru lai o amddiffyniadau na'u cymheiriaid yn Lloegr".⁴

Gwneud hymenoplasti'n drosedd

14. Mae MCD atodol rhif 3 yn esbonio bod hymenoplasti yn fath o lawdriniaeth gosmetig ar organau cenhedlu benywod sy'n cynnwys ail-greu'r hymen. Mae'n ychwanegu nad yw'r driniaeth, a elwir hefyd yn 'atgyweirio'r hymen' yn cael ei chyflawni fel mater o drefn gan y GIG a'i bod fel arfer wedi'i chyfyngu i glinigau preifat. Mae hefyd yn nodi bod Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, Cymdeithas Gynaecoleg Pediatrig a Glasoed Prydain, Cymdeithas Wrogynaecoleg Prydain, a Chymdeithas Endosgopi Gynaecolegol Prydain oll yn gwrthwynebu'r driniaeth ac o blaid ei gwneud yn drosedd.⁵

15. Byddai'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ei gwneud yn drosedd i gynnal triniaeth hymenoplasti, i gynnig cynnal y driniaeth honno, neu i gynorthwyo neu annog person arall i'w gyflawni.

16. O ran y darpariaethau ar brofion gwryfyddod, mae MCD atodol rhif 3 yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r darpariaethau i wneud hymenoplasti yn drosedd gael eu

³ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2), Bil Iechyd a Gofal*, 17 Rhagfyr 2021

⁴ Ibid

⁵ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3), Bil Iechyd a Gofal*, 28 Ionawr 2022

hymestyn er mwyn sicrhau nad yw mesurau diogelu i fenywod a merched yng Nghymru yn syrthio y tu ôl i'r mesurau diogelu mewn mannau eraill yn y DU.⁶

Ein barn ni

17. Daw'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan mai eu diben sylfaenol yw gwarchod a diogelu iechyd a lles menywod a merched.

18. Rydym yn cytuno'n gryf nad oes unrhyw rinwedd o gwbl mewn profion gwryfyddod na hymenoplasti. Mae'n amlwg y dylid dod â'r arferion hyn i ben, ac y dylai'r rhai sy'n parhau i gynnal triniaethau o'r fath, sy'n ceisio gwneud hynny, neu sy'n helpu eraill i wneud hynny, wynebu cosbau cyfreithiol.

19. Rydym hefyd yn cytuno â Llywodraeth Cymru na ddylai menywod a merched yng Nghymru gael dim llai o amddiffyniad na menywod a merched mewn mannau eraill yn y DU. Felly rydym yn cefnogi cymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru.

Casgliad 1. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r Senedd gydsynio i gymalau 122-125 (troseddau profion gwryfyddod), nac i'r darpariaethau a fewnosodwyd gan welliannau 231H, 231J, 231L, 313ZA, 313ZB, 313ZE, 313ZJ, 313ZK a 313 o ran gwneud hymenoplasti yn drosedd.

3. Cymal 135: ad-daliad i fferyllfeydd cymunedol

Cefndir

20. Mae MCD atodol rhif 2 yn nodi bod cymal 135 yn diwygio adran 88 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 i greu eithriad sy'n golygu:

"...nad oes angen ad-dalu contractwyr fferyllol am gynhyrchion meddyginiaethol a ddefnyddir ar gyfer brechlynnau ac imiwneiddio neu ar gyfer atal a thrin clefydau a allai droi'n bandemig, lle mae'r cynhyrchion hynny wedi'u caffael yn ganolog".⁷

21. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddod â'r esemptiad hwn i rym, ac yn rhoi pŵer iddynt wneud darpariaeth drosiannol gysylltiedig. Ni fyddai offerynnau

⁶ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3). Bil Iechyd a Gofal*, 28 Ionawr 2022

⁷ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2). Bil Iechyd a Gofal*, 17 Rhagfyr 2021

statudol a wneir mewn perthynas â'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan Senedd Cymru.

22. Barn Llywodraeth Cymru yw bod angen y ddarpariaeth er mwyn mynd i'r afael â diffygion yn y trefniadau presennol o ran cyflenwi ac ad-dalu a allai godi mewn argyfyngau iechyd.— megis pandemig COVID-19. Mae'n nodi, mewn amgylchiadau o'r fath:

"Nid oes 'cystadleuaeth' go iawn yn y gadwyn gyflenwi gan nad oes digon o gynnyrch ar gyfer galw byd-eang ac mae prisiau'n codi wrth i sefydliadau iechyd ledled y byd geisio cael gafael ar yr un cynnyrch. Er mwyn sicrhau parhad y cyflenwad sy'n diogelu stoc y DU a fwriedir ar gyfer cleifion yn y DU, gall y llywodraeth brynu rhywfaint o stoc yn ganolog. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae Llywodraeth Cymru am gael yr opsiwn i allu cyflenwi'r cynnyrch yn 'uniongyrchol' i fferyllfeydd, heb orfod gwerthu i'r gadwyn gyflenwi. Gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r gadwyn gyflenwi fferyllol arferol fel darparwr gwasanaeth logistaidd i ddarparu'r feddyginiaeth (byddai angen i Lywodraeth Cymru eu talu am y gwasanaeth hwn) ond byddai Llywodraeth Cymru yn cadw teitl y feddyginiaeth.

Gall hyn olygu cyflenwi i fferyllfeydd yn rhad ac am ddim. O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw Llywodraeth Cymru am orfod ad-dalu fferyllfeydd, neu fel arall mae'n rhaid i'r llywodraeth dalu ddwywaith am y cynnyrch - unwaith i'w brynu yn y lle cyntaf ac eto wrth ad-dalu'r fferyllfa.

*Nid ydym am werthu'r meddyginiaethau hyn a sicrhawyd yn ganolog fel pe bai'n wneuthurwr i'r gadwyn gyflenwi i'w werthu i fferyllfeydd yn y ffordd arferol, gan y byddai hyn yn arwain at y cyfle i gyfanwerthwyr, unwaith y byddant yn berchen ar y stoc, ei allforio neu ei werthu am bris llawer uwch nag a delir fel arfer."*⁸

23. Mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, barn Llywodraeth Cymru yw ei bod "yn ddoeth ac yn amserol" i'r ddarpariaeth gael ei gwneud o fewn deddfwriaeth y DU. Mae'r rhesymau a roddwyd dros y farn hon yn cynnwys:

- Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau eraill sy'n ymwneud â meddyginiaethau a materion datganoledig.

⁸ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2), Bil Iechyd a Gofal*, 17 Rhagfyr 2021

- Yr angen i sicrhau nad yw deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru yn "atal y cyflenwad heb ad-daliad".
- Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r amserlenni ar gyfer cychwyn yr esemptiad.⁹

24. Fe wnaethom ofyn i Fferylliaeth Gymunedol Cymru am ei barn ar gymal 135. Gan gydnabod yr heriau a gyflwynir gan bandemig COVID-19 a'r angen i ddysgu gwersi, dywedodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru:

"CPW recognises that Welsh Government cannot predict what a future pandemic could look like, and it could well find itself facing a situation where there are limited stocks of vaccines or other medicines effective against a future virus or disease, and in these circumstances would need to carefully manage the supply. In this scenario, CPW understands that it could better control supply by taking ownership of the medicines.

CPW has no objections to Welsh Government adopting this approach, provided it can be assured that the powers would only be used when a pandemic or health emergency has been officially declared and appropriate remuneration is agreed which adequately reimburses pharmacy contractors for this 'supply and administration only' arrangement. CPW would not want to see these powers, which are designed to meet a health emergency, used as an opportunity to move to the central supply of existing medicines such as influenza vaccines".¹⁰

Ein barn ni

25. Rydym yn cytuno â Fferylliaeth Gymunedol Cymru ei bod yn synhwyrol dysgu ac ymgorffori gwersi sy'n deillio o brofiad yr ymateb i bandemig COVID-19, a bod hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod mesurau ar waith i sicrhau, yn ystod pandemig neu argyfwng iechyd cyhoeddus, y gallai mesurau rheoli priodol, pe bai angen, gael eu gweithredu ar gyfer cyflenwi cynhyrchion meddyginaethol a ddefnyddir ar gyfer brechlynnau ac imiwneiddio, neu atal a thrin clefydau a allai arwain at bandemig. Rydym hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig mai dim ond o dan yr amgylchiadau cyfyngedig a fwriedir y defnyddir pwerau o'r fath.

Argymhelliad 1. Cyn y gofynnir i'r Senedd a ddylai roi ei chydysyniad i gymal 135 (ad-daliad i fferyllfeydd cymunedol), dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi sicrwydd:

⁹ Ibid

¹⁰ Llythyr gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru, 26 Ionawr 2022

na ellir ond defnyddio'r pwerau hyn mewn amgylchiadau pan fydd pandemig neu argyfwng iechyd cyhoeddus wedi'i ddatgan, ac y gweithredir yn unol â hyn; ac y bydd y defnydd o bwerau o'r fath yn cael ei ategu gan dâl ac ad-daliad priodol a digonol i gontractwyr fferyllol.

Casgliad 2. Ar yr amod y rhoddir y sicrwydd hwn, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r Senedd roi ei chydysyniad i gymal 135 (ad-daliad i fferyllfeydd cymunedol).

4. Cymal 143: archwilwyr meddygol

Cefndir

26. Ychwanegwyd cymal 143 at y Bil drwy welliant. Disodlodd gymal 124 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, a oedd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phenodi archwilwyr meddygol gan gyrff y GIG yn Lloegr. Fel y'i diwygiwyd, mae cymal 143 bellach yn gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'n ychwanegu adran 18B newydd at Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 ("Deddf 2009") yng Nghymru a Lloegr, gan osod pŵer i gyrff GIG Cymru benodi archwilwyr meddygol. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau:

- Bod digon o archwilwyr meddygol yn cael eu penodi yn y system gofal iechyd yng Nghymru.
- Bod digon o arian ac adnoddau ar gael i archwilwyr meddygol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau craffu fel y gallent nodi ac atal arfer gwael.
- Bod perfformiad archwilwyr meddygol yn cael ei fonitro.¹¹

27. Mae MCD atodol rhif 2 yn nodi bod y ddarpariaeth wedi'i hychwanegu at y Bil ar gais Llywodraeth Cymru er mwyn ymestyn y pŵer i benodi archwilwyr meddygol i ystod o gyrff y GIG yng Nghymru yn hytrach na byrddau iechyd yn unig (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd hyn yn "galluogi mwy o gydweithio ar draws cyrff y GIG yng Nghymru i sicrhau bod y cynllun archwilwyr meddygol yn cael ei gyflawni'n effeithiol gan olygu bod darpariaethau yn cyd-fynd â'r sefyllfa yn Lloegr".¹²

28. Mae MCD atodol rhif 2 yn esbonio bod testun Rhan 1 o Ddeddf 2009 (lle bydd adran 18B newydd yn cael ei mewnosod) wedi'i gadw'n ôl gan baragraff 167 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae angen cydsyniad y Senedd oherwydd bod y

¹¹ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2), Bil Iechyd a Gofal*, 17 Rhagfyr 2021

¹² Ibid

gwelliant yn gosod swyddogaeth sydd wedi ei chadw'n ôl ar gyrff GIG Cymru ac yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru.

Ein barn ni

29. Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymal 143.

Casgliad 3. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r Senedd gydsynio i gymal 143 (archwilwyr meddygol).

30. Fodd bynnag, fel Pwyllgor, mae gennym bryderon ynghylch y defnydd cynyddol a wneir o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol fel ffordd o ddeddfu ar faterion sydd wedi eu datganoli i Gymru. Er nad ydym yn gwrthwynebu'r dull hwn ar gyfer y ddarpariaeth benodol hon, rydym yn nodi bod darpariaeth debyg wedi ei chynnwys yn y Bil ers ei gyflwyno ynghylch penodi archwilwyr meddygol gan gyrff GIG Lloegr. Mae hyn yn golygu bod y ddarpariaeth, i'r graddau y mae'n ymwneud â Lloegr, wedi bod yn ddarostyngedig i'r broses craffu deddfwriaethol yn Senedd y DU, a hynny am resymau teilwng. Mewn gwrthgyferbyniad, yn sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru i ofyn i ddarpariaeth yn deddfwriaeth y DU gael ei hymestyn i Gymru yn hytrach na mynd i'r afael â hyn mewn deddfwriaeth Gymreig addas a fyddai'n destun craffu gan broses graffu gadarn Senedd Cymru, ochr yn ochr â'r gwelliant a wnaed ar gyfnod mor hwyr yn y broses, ac felly'r amser cyfyngedig iawn a oedd ar gael i graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a MCD atodol, mae hyn yn anorfod yn cyfyngu ar allu Pwyllgorau'r Senedd i gynnal gwaith craffu manwl ac ystyrllon ar y goblygiadau posibl a allai godi yn y cyd-destun polisi, deddfwriaethol a gweithredol yng Nghymru. Mae'r dull hwn nid yn unig yn arwain at fwy o risg y bydd goblygiadau anfwriadol neu oblygiadau nas rhagwelir y gellid fel arall eu nodi a'u lliniaru drwy waith craffu, ond mae hefyd yn arwain at risg o danseilio rôl y Senedd fel corff sy'n gwneud deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig. Nid dyma, felly, y dull gorau o ddeddfu.

5. Adroddiadau gorfodol

Cefndir

31. Mae MCD atodol rhif 3 yn esbonio bod gwelliannau wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth y DU i:

"...wneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithgynhyrchwyr neu gyflenwyr masnachol cynhyrchion gofal iechyd, neu

bersonau sy'n gysylltiedig â hynny, gyhoeddi gwybodaeth am daliadau neu fuddion eraill (pa un a ydynt yn rhai ariannol ai peidio) y maent yn eu rhoi i ddarparwyr gofal iechyd, neu ddarparu gwybodaeth o'r fath i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w chyhoeddi.

Diben y darpariaethau yw sicrhau bod cleifion yn gallu gwirio (neu fod yn dawl eu meddwl) bod penderfyniadau am eu triniaeth yn cael eu gwneud ar sail yr hyn sydd orau iddynt yn glinigol, yn hytrach nag ar yr hyn sy'n broffidiol neu'n fuddiol i'w darparwr gofal iechyd. Bydd gwybodaeth a gesglir ar gael i'r cyhoedd gyda'r nod cyffredinol o wella ymddiriedaeth cleifion mewn darparwyr gofal iechyd".¹³

32. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r darpariaeth gael ei hymestyn i Gymru, ar y sail ei bod "yn bwysig bod y polisi o gofnodi gwybodaeth am daliadau neu fuddion eraill yn gymwys ledled y DU". Mae MCD atodol rhif 3 yn ychwanegu y bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fyddai unrhyw darpariaeth mewn unrhyw reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r gwelliannau hefyd yn darparu, pe na bai cydsyniad o'r fath yn cael ei roi gan Weinidogion Cymru, y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau a oedd yn gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r DU, er enghraifft i eithrio gweithgynhyrchwyr yng Nghymru rhag cyflwyno adroddiadau.¹⁴

Ein barn ni

33. Daw'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru gan fod eu diben yn ymwneud â darparu Gofal Iechyd, ac mae hyn wedi'i ddatganoli.

34. Mewn egwyddor, dylai'r gofyniad i adrodd a chyhoeddi gwybodaeth am daliadau neu fuddion eraill a roddir i ddarparwyr Gofal Iechyd gan weithgynhyrchwyr neu gyflenwyr masnachol cynhyrchion Gofal Iechyd (neu bersonau cysylltiedig) arwain at fwy o dryloywder mewn perthynas â'r broses o wneud penderfyniadau clinigol a phenderfyniadau ynghylch gofal. Fodd bynnag, gan fod y gwelliannau hyn wedi'u cyflwyno mor hwyr, nid ydym wedi cael digon o amser i gasglu unrhyw dystiolaeth na chraffu arnynt yn fanwl.

35. Serch hynny, rydym yn croesawu'r ffaith y cynhwysir y gofyniad am gydsyniad cyn y gellir cynnwys darpariaeth mewn unrhyw reoliadau o dan y pwerau hyn a fyddai o fewn cymhwysedd

¹³ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3). Bil Iechyd a Gofal*, 28 Ionawr 2022

¹⁴ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3). Bil Iechyd a Gofal*, 28 Ionawr 2022

deddfwriaethol y Senedd, a mecanwaith sy'n darparu ffordd ymlaen pe bai cydsyniad o'r fath yn cael ei wrthod. Mae hwn yn ddull pragmatig sy'n cydbwysu manteision deddfu ar sail y DU gyfan lle mae'n ddymunol gwneud hynny, gyda mesurau diogelu priodol ar gyfer y setliad datganoli drwy warchod rhag arfer pwerau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd heb gydsyniad.

Casgliad 4. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau a fewnosodwyd gan welliannau 312B, 312C, 312D, 313C a 314ZB mewn perthynas ag adrodd gorfodol.

6. Diweddariad ar ddarpariaethau a gwmpesir gan y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Cymal 87: systemau gwybodaeth am feddyginiaethau (cymal 85 yn flaenorol)

Diweddariad

36. Fel y gwnaethom ei nodi yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2021 fod diwygiadau a wnaed i'r Bil wedi mynd i'r afael â'i phryderon ynghylch casglu a defnyddio data am gleifion o Gymru.¹⁵ Roedd hyn yn cynnwys gofyniad bod yn rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar unrhyw reoliadau neu gyfarwyddydau sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth am feddyginiaethau sy'n ymwneud â Chymru. Mewn llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ym mis Chwefror 2022, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

"This will be supported by a Memorandum of Understanding to be developed and agreed between the UK Government and the Devolved Governments. We have communicated to UK Government the need to develop this Memorandum as soon as possible with a view to it being in place before the provisions come into force."¹⁶

¹⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal*, Rhagfyr 2021, t.8

¹⁶ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2022

Ein barn ni

37. Mae'n hanfodol bod digon o fesurau diogelu ar waith i ddiogelu data personol a meddygol cleifion Cymru, a sicrhau y cânt eu defnyddio'n briodol.

38. Rydym yn nodi nad yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a fydd yn sail i'r dull o ymgynghori â gweinyddiaethau datganoledig ar reoliadau sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth am feddyginiaethau wedi'i ddatblygu eto.

39. Mae materion sy'n ymwneud â pherchnogaeth data a rhannu data yn sensitif ac yn bwysig, yn enwedig gan y gellir mabwysiadu gwahanol ddulliau mewn gwahanol rannau o'r DU. Gan hynny, byddem yn bryderus pe bai'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth am feddyginiaethau yn dod i rym cyn bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r amserlenni a ragwelir ar gyfer datblygu a chytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth am feddyginiaethau, a dylai roi sicrwydd y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn weithredol cyn i'r darpariaethau ddod i rym.

Cymalau 88-94: cyrff hyd braich yn trosglwyddo swyddogaethau (cymalau 86-92 yn flaenorol)

Diweddariad

40. Roedd gan Lywodraeth Cymru dri phrif bryder ynghylch y darpariaethau hyn wrth gyflwyno'r Bil. Roedd MCD atodol rhif 2 yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar welliannau arfaethedig i'r cymalau hyn. Fodd bynnag, nid oedd y gwelliannau wedi'u cyflwyno bryd hynny gan na ddaethpwyd i gytundeb â'r holl Lywodraethau datganoledig.¹⁷

41. Mae MCD atodol rhif 3 yn nodi pryderon cychwynnol Llywodraeth Cymru, ac yn disgrifio'r diwygiadau sydd bellach wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â'r pryderon hynny:

- Byddai'r darpariaethau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd wedi caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, heb gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, wneud rheoliadau a fyddai'n trosglwyddo swyddogaethau rhwng cyrff perthnasol neu'n darparu ar gyfer arfer

¹⁷ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2), Bil Iechyd a Gofal*, 17 Rhagfyr 2021

swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol gan gorff perthnasol. Mae'r cyrff hyn yn cynnwys yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'r rhannau o GIG Digidol sy'n ymwneud â Systemau Gwybodaeth Feddygol. Byddai gwneud darpariaethau o'r fath mewn perthynas â chyrff penodol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n addasu swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

Ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliant sy'n darparu ar gyfer gofyniad statudol am gydsyniad, lle mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan gymal 89 (Pŵer i drosglwyddo swyddogaethau rhwng cyrff) neu gymal 90 (Pŵer i ddarparu ar gyfer arfer swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol) pan fo'r rheoliadau hynny'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os yw wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru (ac os nad ydyw ond yn digwydd ymwneud â darpariaeth a fyddai y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu'n ganlyniadol yn unig) neu sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru (h.y. yn addasu eu cymhwysedd gweithredol).

- O'i gyflwyno, byddai'r Bil wedi rhoi'r gallu i'r Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau eraill o gyrrff hyd braich i Weinidogion Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru-yn-unig yng Nghymal 92.

Mae Llywodraeth y DU bellach wedi cyflwyno gwelliannau sy'n tynnu Gweinidogion Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru oddi ar y rhestr o "bersonau priodol" yn y cymal.

- Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i gymal 88 neu gymal 90 o'r Bil. Rydym yn trafod y mater hwn ymhellach isod.

Ein barn ni

42. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn fodlon y bydd y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ynghylch trosglwyddo swyddogaethau cyrff hyd braich yn datrys ei phryderon.

Casgliad 5. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r Senedd gydsynio i gymalau 88-94 (trosglwyddo swyddogaethau cyrff hyd braich) fel y'i diwygiwyd gan welliannau 231C, 227A, 231A a 231B.

Cymal 136: trefniadau gofal iechyd rhyngwladol (cymal 120 yn flaenorol)

Diweddariad

43. Mae MCD atodol rhif 2 yn nodi, yn dilyn gwelliannau, fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynnwys y ddarpariaeth yn y Bil:

- Mae'r cymal yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi neu ddirprwyo swyddogaethau i "awdurdod cyhoeddus perthnasol" wrth wneud rheoliadau ynghylch cytundebau gofal iechyd rhyngwladol o dan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 (fel y'i diwygiwyd) ("Deddf 2019"). Mae'r Bil wedi'i diwygio i eithrio Gweinidogion Cymru ac awdurdodau Cymreig datganoledig eraill o'r diffiniad hwnnw. Mae gwelliannau eraill yn dod â byrddau iechyd Cymru o fewn cwrpas pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i sicrhau parhad y swyddogaethau presennol sydd eisoes wedi'u rhoi iddynt ynghylch ceisiadau gofal iechyd wedi'u cynllunio.
- Bydd gwelliannau pellach i'r Bil yn diwygio Deddf 2019 i roi pŵer i Weinidogion Cymru i'w galluogi i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig at ddiben rhoi effaith i gytundebau gofal iechyd rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i ddirprwyo swyddogaethau i bob awdurdod datganoledig Cymreig a/neu roi swyddogaethau iddynt. Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Os bydd Gweinidogion Cymru yn methu ag arfer y pŵer hwn i roi swyddogaethau perthnasol i'r byrddau iechyd ynghylch cytundebau gofal iechyd, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi'r swyddogaethau hynny.

44. Pan gyflwynwyd y Bil, nid oedd y ddarpariaeth wreiddiol ond yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i weithredu cytundebau gofal iechyd a fyddai'n gymwys i Gymru. Ni fyddai'r Senedd wedi cael yr hawl i graffu ar reoliadau o'r fath. O ganlyniad i'r gwelliannau, a chynnwys adran 2A newydd yn Deddf 2019, bydd y Senedd yn cadw ei gallu i graffu (drwy'r weithdrefn negyddol) ar reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chytundebau gofal iechyd rhyngwladol.

45. Mae MCD atodol rhif 2 yn nodi mai barn Llywodraeth Cymru yw:

"... nad yw gallu Gweinidogion Cymru i gael y pŵer i osod swyddogaeth gofal iechyd gyfatebol ar Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru yn dileu'r gallu i Lywodraeth y DU ymrwymo i gytundebau gofal iechyd cyfatebol a allai arwain at bwysau ychwanegol ar GIG Cymru. Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod y

*gwelliannau'n newid sylweddol o safbwynt y Bil fel y'i cyflwynwyd ac ynghyd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ymgysylltu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth ddatblygu cytundebau gofal iechyd cyfatebol newydd a diwygiedig – y byddaf yn eu hanfon ymlaen at y Pwyllgor maes o law - yn diogelu'r setliad datganoli yn ddigonol."*¹⁸

46. Darparodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gopi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gofal iechyd cilyddol ar 3 Chwefror 2022. Dywedodd y canlynol:

*"Mae pob un o'r pedair gwlad wedi cytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Bydd y Pwyllgor am nodi nad yw'r cysylltiadau ehangach mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethiant newydd ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hyd yma, ond maent yn cael eu hystyried. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r trefniadau newydd ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol maes o law."*¹⁹

47. Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gwnaethom fynegi pryderon nad oedd y Bil yn cynnwys prawf clir a chymesur ar gyfer yr hyn a fyddai'n gymhwysol fel 'amgylchiad eithriadol' at ddibenion y swm neu'r math o ofal iechyd y gellir ei ariannu y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol.²⁰ Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dywedodd y Gweinidog mai ei barn hi oedd na fyddai'n briodol i brawf o'r fath gael ei gynnwys, gan y gallai hyn gael "effaith andwyol neu gyfyngol wrth ddarparu cymorth pan fo angen". Esboniodd:

"Diben y pŵer sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ariannu gofal iechyd y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol mewn amgylchiadau eithriadol yw cynorthwyo Llywodraeth y DU i gefnogi anghenion gofal iechyd pobl sy'n preswyllo ym Mhrydain pan fyddant dramor mewn amgylchiadau a allai fel arall ddisgyn, o fewn dim, y tu allan i gytundeb gofal iechyd cilyddol."

¹⁸ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2). Bil Iechyd a Gofal*, 17 Rhagfyr 2021

¹⁹ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 3 Chwefror 2022

²⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal*, Rhagfyr 2021, t.16

Yn y gorffennol, er enghraifft, mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio pwerau presennol o dan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 i ddarparu cymorth gofal iechyd ar gyfer argyfwng iechyd meddwl i blentyn dan oed yn yr UE pan fo'r Aelod-wladwriaeth wedi dweud nad oedd y driniaeth yn cael ei chynnwys o dan gynllun y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ariannu triniaeth yn yr UE ar gyfer gefeilliaid sydd â haemangioma babandod a gafodd eu geni i rieni sy'n preswyllo yn y DU ond nad oeddent yn gallu teithio'n hawdd yn ôl i'r DU oherwydd cyfyngiadau teithio COVID-19 a'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â theithio ar y pryd. Ni fyddent fel arall wedi bod o fewn cwmpas y darpariaethau sy'n gysylltiedig â thriniaeth wedi'i chynllunio yng nghytundebau gofal iechyd cilyddol yr UE oherwydd gallent fod wedi cael y driniaeth yn y DU heb oedi diangen pe baent wedi bod yn y DU ar y pryd.

[...]

Mae'n debygol mai'r amgylchiadau hynny pan fyddai gwrthod ariannu triniaeth gofal iechyd yn arwain at ganlyniadau llym, na ellir eu cyfiawnhau, i'r unigolyn, i'r graddau fel na fyddai gwrthod cais am gyllid yn ymateb cymesur, yw amgylchiadau eithriadol. Mae'n anorffod bod rhaid cydbwysu unrhyw fuddiannau cyhoeddus â buddiannau'r unigolyn dan sylw sy'n gwrthdaro â'i gilydd wrth benderfynu a ellir cyfiawnhau talu am driniaeth drwy amgylchiadau eithriadol. Byddai ceisio diffinio hyn ymhellach mewn deddfwriaeth sylfaenol drwy gyfeirio at faint neu'r math o ofal iechyd y gellir ei ariannu yn cyfyngu'n ormodol ar allu'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer y disgrisiwn hwn a byddai'n llesteirio'r gallu i gynorthwyo pobl sy'n preswyllo ym Mhrydain pan fydd arnynt angen fwyaf."²¹

Ein barn ni

48. Rydym yn nodi barn Llywodraeth Cymru ynghylch cymal 136 (fel y'i diwygiwyd), a darpariaeth y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gofal iechyd cilyddol y cytunwyd arno rhwng pedair llywodraeth y DU.

49. Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gwnaethom nodi ein pryderon ynghylch a fyddai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol anstatudol yn ddigon tryloyw, ac yn cynnig digon o warchodaeth i'r setliad datganoli pan na fydd i bob

²¹Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 3 Chwefror 2022

pwrpas yn rhwymo llywodraethau olynol y DU.²² Rydym yn nodi mai dim ond ar 3 Chwefror 2022 y trefnwyd bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gael i Aelodau o'r Senedd, a'i fod eto i'w ddiweddarau i adlewyrchu trefniadau llywodraethu'r cysylltiadau rhynglywodraethol newydd. O reidrwydd felly, mae hyn yn cyfyngu ar y potensial ar gyfer craffu llawn ac effeithiol cyn y gofynnir i'r Senedd a ddylai gydsynio i gymal 136 ai peidio.

Cymal 142: rheoleiddio gofal iechyd a phroffesiynau cysylltiedig (cymal 123 yn flaenorol)

Diweddariad

50. Mae rheoleiddio proffesiynau gofal iechyd yn fater a gadwyd yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae rheoleiddio personau nad ydynt yn weithwyr proffesiynol ond sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl unigolion yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig.

51. Mae MCD atodol rhif 2 yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r gwelliannau a wnaed i'r Bil i ddarparu y bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru wrth arfer, mewn perthynas â Chymru, y pŵer i wneud rheoliadau o dan gymal 142 i'r graddau y mae'n gysylltiedig â grwpiau o weithwyr sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl unigolion.²³

52. Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gwnaethom nodi pwysigrwydd rolau uwch-arweinwyr ac uwch-reolwyr iechyd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Gan nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu rheoleiddio'r proffesiynau hyn ar hyn o bryd, gofynnwyd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu pa ddadansoddiad sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru o'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â rheoleiddio, neu beidio â rheoleiddio, uwch-arweinwyr ac uwch-reolwyr iechyd yng Nghymru, a beth yw'r rhesymeg dros ei phenderfyniad i beidio â chyflwyno rheoliad o'r fath.²⁴

²² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal*, Rhagfyr 2021, t.16

²³ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2). Bil Iechyd a Gofal*, 17 Rhagfyr 2021

²⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal*, Rhagfyr 2021, t.20

53. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

"Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â rheoleiddio'r gweithwyr hyn (sy'n cynnwys uwch arweinwyr a rheolwyr iechyd yng Nghymru) drwy Orchymyn yn y Cyngor. Pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu rheoleiddio mewn perthynas â gweithwyr proffesiynol o'r fath yn y dyfodol, a phe bai hyn yn gymwys yng Nghymru hefyd, yna bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried a ddylid cydsynio i Orchymyn sy'n gwneud darpariaeth o'r fath ai peidio. Byddai penderfyniad o'r fath yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth berthnasol ynglŷn â risgiau, costau a manteision cymhwyso'r rheoliadau yng Nghymru.

*Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i reoleiddio uwch arweinwyr a rheolwyr iechyd yng Nghymru ac mae cyfluniad y GIG yng Nghymru yn golygu y bydd hyn yn annhebygol yn y dyfodol. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi nodi nad oes ganddi unrhyw gynlluniau penodol i reoleiddio'r grŵp hwn o weithwyr yn y dyfodol agos."*²⁵

Diwygiadau canlyniadol (cymalau 91, 144 a 149)

Diweddariad

54. Mae MCD atodol rhif 2 yn ailadrodd pryderon y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r darpariaethau hyn, sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol i'r Bil, gan gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu, neu'n addasu fel arall ddarpariaeth a wneir gan, neu o dan, Deddf neu Fesur y Senedd.²⁶

55. Mewn gohebiaeth, mae Llywodraeth y DU wedi darparu rhai enghreifftiau o sut y mae'n rhagweld y gallai ddefnyddio'r pwerau hyn. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, diweddaru enwau sefydliadau yn Lloegr y cyfeirir atynt yn neddfwriaeth Senedd Cymru.²⁷ Fodd bynnag, mae MCD atodol rhif 2 yn nodi bod Gweinidog Gwladol dros Iechyd y DU wedi ymrwmo i wneud datganiad yn siambr Tŷ'r Cyffredin ynghylch sut y mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y gallai'r pwerau diwygiadau canlyniadol yn y Bil gael eu defnyddio, ond nad oedd y datganiad

²⁵Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 3 Chwefror 2022

²⁶ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2), Bil Iechyd a Gofal*, 17 Rhagfyr 2021

²⁷ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd, 25 Tachwedd 2021

hwn wedi ei wneud hyd yma. Eir ymlaen i ddweud y byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, unwaith y bydd y datganiad wedi'i wneud yn "penderfynu a yw'r risg a gyflwynir gan y darpariaethau yn dderbyniol o ystyried yr holl sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU".²⁸

56. Mae MCD atodol rhif 3 yn nodi bod Llywodraeth Cymru bellach wedi cytuno â Llywodraeth y DU ar eiriad y datganiad sydd i'w wneud gan Weinidog Gwladol dros Iechyd y DU yn siambr Tŷ'r Cyffredin. Mae hefyd yn dweud bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i'r datganiad sy'n cael ei wneud cyn i Senedd Cymru drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol.

57. Dywed y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

"Ar sail y datganiad sy'n cael ei wneud, ac yng ngoleuni'r holl sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU, yr wyf o'r farn bod y risg a gyflwynir gan y darpariaethau bellach yn dderbyniol".²⁹

58. Bydd cwmpas y datganiad yn cynnwys cymalau 91 a 149; ni fydd yn cynnwys cymal 144. Y rheswm dros hyn yw:

"Mae cymal 144 yn cyfeirio at Atodlen 17 sy'n diwygio Deddf Cyfathrebu 2003 er mwyn cyfyngu ar hysbysebu rhai cynhyrchion bwyd a diod mewn perthynas â'r DU. Ymdrinnir â'r Cymal a'r Atodlen yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar y Bil. Er bod darpariaethau yn y cymal hwn hefyd sy'n galluogi newid canlyniadol i ddeddfwriaeth y Senedd, nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi bod y cymal hwn yn un y mae gofyn cael cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar ei gyfer ac ni fydd, felly, yn ei gynnwys yng ngeiriad y datganiad gerbron y Blwch Dogfennau.

²⁸ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2). Bil Iechyd a Gofal*, 17 Rhagfyr 2021

²⁹ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3). Bil Iechyd a Gofal*, 28 Ionawr 2022

Fodd bynnag, ar sail y sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU am y defnydd posibl o'r pwerau, rydym yn derbyn bod y diwygiadau canlyniadol a allai godi o Gymal 144 yn fân risg gyfansoddiadol sy'n dderbyniol."³⁰

Ein barn ni

59. Er y byddai gwell amddiffyniadau i'r setliad datganoli sy'n fwy tryloyw yn cael eu darparu yn y tymor hwy drwy gynnwys gofynion am gydsyniad ar wyneb y Bil, nodwn mai barn y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw bod y sicrwydd a roddir gan Weinidog y DU yn lleihau'r risgiau cysylltiedig sy'n deillio o ehangder posibl y pwerau i lefel dderbyniol. Rydym hefyd yn nodi'r awgrym yn ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'n hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nad yw Gweinidog Gwladol dros Iechyd Llywodraeth y DU, fel ag y mae ar 3 Chwefror 2022, wedi gwneud y datganiad Blwch Dogfennau y cytunwyd arno eto.³¹

Argymhelliad 3. Cyn y gofynnir i'r Senedd benderfynu a yw am gydsynio i gynnwys cymalau 91, 144 a 149 yn y Bil, dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gadarnhau bod Gweinidog Gwladol dros Iechyd y DU wedi gwneud y datganiad y cytunwyd arno yn siambr Tŷ'r Cyffredin.

³⁰ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3), Bil Iechyd a Gofal*, 28 Ionawr 2022

³¹Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 3 Chwefror 2022
